# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3 E+W

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 3 E+W

RHYDDHAD RHAG TRETH

### 33 Pŵer i addasu rhyddhadau E+W

(1) Caiff rheoliadau—

(a) creu rhyddhad ychwanegol rhag treth,

(b) addasu rhyddhad presennol, neu

(c) dileu rhyddhad.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu i ryddhad fod yn gymwys yn ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n ei gwneud yn ofynnol hysbysu ACC cyn gwneud gwarediad trethadwy).

(3) Caiff y rheoliadau ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 33 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 33.